

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Adroddiad Blynyddol 2021 - 2022

Cydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mehfin 2022



This document is also available in English

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Cefndir	3
3.	Cydymffurfiad	4
	<ul style="list-style-type: none">• Safonau Cyflenwad Gwasanaeth• Safonau Gwneud Polisi• Safonau Gweithredu• Cwynion• Sgiliau'r Iaith Gymraeg• Hyfforddiant Iaith Gymraeg• Recriwtio	
4.	Casgliadau	15

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymdrechu i wella ansawdd y gwasanaethau y mae'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r graddau y maen nhw ar gael.

Trwy gydol 2021/22, mae'r tîm wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau ar draws holl adrannau'r Cyngor. Bydd cyflwyno Fframwaith Derbyn Corfforaethol newydd yn sicrhau pwysigrwydd gofynion rheoleiddiol a moesegol yr iaith Gymraeg yn rhan o broses derbyn cyflogeion newydd.

Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud gyda sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor gyda'r bwriad o wella ansawdd eu gwasanaethau Cymraeg a'r graddau y maen nhw ar gael.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'n cydymffurfiad â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Rydym yn edrych i ddileu rhwystrau a allai wahardd cynnydd y Safonau a byddwn yn arwain i fwy o hyrwyddo a staff i ddarparu ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Cyngor llawn ac mae'n sicrhau fod Aelodau Etholedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau corfforaethol a rhwymedigaethau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor (www.torfaen.gov.uk), o dan adran yr iaith Gymraeg a bydd ar gael mewn swyddfeydd lleol ble mae mynediad i'r cyhoedd, erbyn 30 Mehefin 2022 fan bellaf.

2. Cefndir

Cynhyrchir yr Adroddiad Blynyddol hwn dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015. O dan y fframwaith cyfreithiol mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen adrodd ar bum maes statudol.

Meysydd	Safon a/neu Is-adran Berthnasol
Cydymffurfiad	158, 164, 170
Cwynion	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
Sgiliau'r Iaith Gymraeg	170 (2) (a), 151
Hyfforddiant Iaith Gymraeg	170 (2) (b) (c), 152
Recriwtio	170 (2) (ch), 154

Ceir manylion Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Mae'r cyngor yn ddarostyngedig i 170 o Safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gael [yma](#)

Mae gan y Tîm Partneriaethau, Polisi a Chydraddoldebau, dan gyfarwyddiaeth yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, ar hyn o bryd bedwar aelod staff yn gweithio ar gyflawni gwaith Iaith Gymraeg corfforaethol ar ran y Cyngor:

Swyddog yr Iaith Gymraeg
Cydgysylltydd Cyfieithu Cymraeg
Cyfieithwyr yr Iaith Gymraeg (x 2)

Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Tîm Partneriaethau, Polisi a Chydraddoldebau
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl
Torfaen, NP4 6YB

Ffôn: (01495) 766096

Yr Aelod Gweithredol a benodwyd ar gyfer Llywodraeth Gorfforaethol a Pherfformiad (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) ar gyfer 2021/22 oedd y Cyng. David Yeowell

3. Cydymffurfiad

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar fewnrwyd y Cyngor.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2021/22	Camau i'w cymryd yn ystod 2022/23
Safonau 1 - 7 Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd	<p>Cyhoeddi canllawiau drwy Bwletin y Staff</p> <p>Mae rhestr cyfeiriadau e-byst corfforaethol ar gael.</p>	<p>Monitro gohebiaeth gyffredinol â'r cyhoedd i sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Datblygu canllawiau pellach o dro i dro i staff drwy'r Bwletin Staff</p> <p>Gweithio gyda SRS i fabwysiadu'r cyfeiriadau e-byst newydd</p>
Safonau 8 - 22 Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd	<p>Mae canllawiau ar gyfer delio ag ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg wedi eu cyhoeddi</p> <p>Mae negeseuon awtomatig wedi'u recordio'n yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2021 cafodd systemau ffôn y Cyngor eu huwchraddio. Nid oes data ar gael rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd</p> <p>Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022, derbyniodd prif ganolfan alwadau'r Cyngor gyfanswm o 39,978 o alwadau. Dewisodd 1.25% (499 galwad) o'r galwadau hyn yr opsiwn Cymraeg.</p>	<p>Sicrhau bod aelodau a staff yn ymwybodol o'r protocol wrth ymdrin â galwadau Cymraeg.</p>
Safonau 24 - 36 Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd	<p>Mae'r Cyngor wedi dechrau dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen.</p>	<p>Parhau i weithio gyda'n darparwyr gwybodaeth Technoleg i fonitro unrhyw uwchraddiadau i Microsoft Teams</p>

Safonau 37 - 51, 69 - 70 Dogfennau dwyieithog eraill	Mae canllaw dylunio Comisiynydd y Gymraeg wedi'i ddosbarthu i'r adrannau perthnasol fel arfer da.	Sicrhau bod y frawddeg statudol "Hefyd ar gael yn Gymraeg/Saesneg" yn cael ei chynnwys ym mhob dogfen (gan gynnwys dogfennau ar y we)
Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth	Cafodd tudalennau Cymraeg y wefan gorfforaethol 3,096 o ymweliadau yn ystod 2021/22, o'i gymharu â 2,315,074 o ymweliadau ar y tudalennau Saesneg.	Monitro gwefannau sy'n eiddo i'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth
Safonau 61 - 63 Arwyddion	Ni enwyd unrhyw strydoedd tai newydd yn ystod 2021/2022	Monitro'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd y Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
Safonau 64 - 68 Gwasanaethau'r Dderbynfa	Ymweliadau cyfnodol yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth.	Wrth i'r cyfyngiadau godi, sicrhau fod pob derbynfa yn parhau i gydymffurfio Gweithio gyda'r tîm recriwtio i sicrhau bod holl swyddi newydd yn cael eu gwerthuso ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg.
Safonau 71 - 75 Rhoi Grantiau	Gweithio gyda'n hadran Archwilio Mewnol i sicrhau bod unrhyw arian a ddyfernir fel rhan o grant yn cydymffurfio â'r Safonau dyfarnu grantiau.	Monitro cydymffurfiaeth
Safonau 76 - 80 Rhoi Cytundebau	Mae pob gwahoddiad caffael yn cynnwys elfennau sgorio'r iaith Gymraeg. Cynnig cymorth iaith Gymraeg i gynigwyr llwyddiannus.	Parhau i weithio gyda darparwyr trydydd parti ar ofynion y Gymraeg
Safonau 81 - 82 Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg	Diweddarau'r canllawiau ar hyrwyddo gwasanaethau .	Monitro'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n weithredol.
Safon 83 Hunaniaeth Gorfforaethol	Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog	Monitro cydymffurfiaeth

Safonau 84 a 86 Cyrsgau Addysgol	Hysbysebwyd cyrsiau gyda cynnig dewis iaith. Asesir pob cwrs o ran nifer y mynychwyr a'r ddarpariaeth.	Sicrhau bod yr asesiad o gyrsiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan
Safon 87 Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus	Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob lifft yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog.	Monitro cydymffurfiaeth

Safonau Lluio Polisi

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar ofynion y Safonau Lluio Polisi ar fewnwyd y Cyngor.

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2021/22	Camau i'w cymryd yn ystod 2022/23
Safonau 88 - 93	Mae asesiad effaith integredig y Cyngor, sy'n gysylltiedig â'r 7 nod llesiant cenedlaethol, yn parhau i fod yn arf effeithiol. Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn goruchwyllo pob penderfyniad polisi sy'n gofyn am asesiad effaith integredig cyn ei gyflwyno i'r Aelodau Etholedig	Parhau i gefnogi'r broses cymeradwyo polisi

Safonau Gweithredu

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Gweithredu ar fewnryd y Cyngor.

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2021/22	Camau i'w cymryd yn ystod 2022/23
Safonau 99 – 104 Dogfennau Cyflogaeth	Mae'r holl ddogfennau Adnoddau Dynol electronig yn ddwyieithog. Mae'r system awtomataidd ar gyfer nodi gwyliau / absenoldebau, treuliau a gwerthuso staff yn parhau i fod yn Saesneg yn unig.	Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth
Safonau 105 – 111 Polisiâu Adnoddau Dynol	Darperir holl bolisiâu Adnoddau Dynol y Cyngor yn Gymraeg ar fewnryd y staff (SWOOP).	Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth
Safonau 112 – 119 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;	Mae 9 (0.4%) o weithwyr wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith wrth gyfathrebu	Ymgych i gynyddu nifer y staff sy'n cwblhau'r asesiad sgiliau iaith
Safonau 120 - 125 Mewnryd y Staff ac Adnoddau TG	Mae'r 'pecyn iaith' Cymraeg wedi'i osod ar bob cyfrifiadur Newydd, ym mhob ystyr.	Diweddarau'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y mewnryd
Safon 127 Sgiliau iaith Staff	Gweler yr adran ar <i>sgiliau iaith Gymraeg</i> .	Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau eu hasesiad sgiliau iaith
Safonau 128 - 133 Hyfforddi staff	Gweler yr adran ar <i>sgiliau iaith Gymraeg</i> . Nid oedd yr un aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant Adnoddau Dynol a gynigiwyd yn Gymraeg Yn ystod 2021/2022, ymgymherodd 14 o weithwyr hyfforddiant iaith Gymraeg.	Parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg fel sgil gwerthfawr.
Safonau 134 - 135 Geiriad a Logo ar gyfer Llofnod E-byst Staff	Atgoffir yr holl staff, drwy reolwyr llinell, i gael llofnod e-bost dwyieithog yn unol â safonau corfforaethol.	Diweddarau'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y mewnryd

	Mae'r logo "Cymraeg Gwaith" ar gael i staff ei lawrlwytho ar y fewnwyd.	
Safonau 136 - 140 Y Broses Recriwtio	Gweler yr adran <i>Recriwtio</i>	Archwilio ymhellach gyda Adnoddau Dynol ac Uwch Reolwyr.y rhwystrau sy'n cyfyngu adrannau rhag hysbysebu swyddi sydd angen sgiliau iaith.
Safonau 141 - 143 Arwyddion Mewnol	Ailgyhoeddi canllawiau ar arwyddion newydd	Monitro'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd y Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
Safon 144 Cyhoeddiadau'r Gweithle	Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob liff yn swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog.	Parhau i fonitro

Cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan drigolion trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn unol â pholisi cwyno corfforaethol y Cyngor. Caiff cwynion eu categorio dan dri cham

- **Cam 1** - Datrys cwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith
- **Cam 2** - Cwyn Cam 1 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog uwch neu gŵyn sy'n ymwneud â mwy nag un maes gwasanaeth. Caiff cwynion eu harchwilio'n ffurfiol a chânt ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Comisiynydd y Gymraeg** - Cwyn Cam 2 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog neu gorff uwch a all gael arolwg annibynnol ar ran yr achwynydd. Byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fod wedi defnyddio proses gwyno lawn y Cyngor cyn cysylltu, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. O dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru), mae Comisiynydd yr Iaith yn medru derbyn cwynion a anfonir yn uniongyrchol i swyddfa'r Comisiynydd ac ymchwilio ar eu rhan, os tybir bod y gŵyn yn un ddilys.

Yn ystod 2021/2022, derbyniwyd 3 cwyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd ym mhob cam:

Cam 1:	Cam 2:	Comisiynydd y Gymraeg
0	0	3

Cam 1:

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol gan y cyhoedd.

Comisiynydd y Gymraeg

Dechreuwyd 3 Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

CS100 – Parhau – Ymchwilio i fethiant i ddarparu ymgynghoriad ar y System Bwcio Ailgylchu yn Gymraeg

CS100b – Parhau – Ymchwiliad i fethiant i ymateb i sylw ar Gais Cynllunio yn Gymraeg a thudalennau ar y Porth Cynllunio ddim ar gael yn Gymraeg

CS046 – Rhaid i wefan a systemau archebu Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r gofyniad i ddarparwyr trydydd parti gadw at Safonau Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrth ddarparu gwasanaethau.

Sgiliau'r Iaith Gymraeg

Am flynyddoedd lawer mae'r Cyngor wedi casglu data ar sgiliau iaith ei staff. Hyd at fis Mawrth 2016 casglwyd y wybodaeth hon drwy'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Mae'r Cyngor wedi datblygu'r porthol cyflogeion Adnoddau Dynol (iFOR) i ddal, cofnodi ac adrodd ar sgiliau iaith staff, yn y modiwl dysgu a datblygu, ble gall staff ddiweddarau eu sgiliau yn ôl y gofyn. Dyma'r data diweddaraf ar Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos pob maes gwasanaeth a lefel y rhuglder gan ddefnyddio'r graddfeydd ALTE.

0 = Dim sgiliau iaith Gymraeg

5 = Medrus

Nifer o Siaradwyr Cymraeg fesul Adran

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaeth Addysg	103	57	1	1	0	5	167
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	239	45	10	5	4	2	305
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoleiddiol	679	6	0	1	3	1	690
Gofal Cymdeithasol a Thai	505	24	3	2	2	3	539
Trawsnewid, Gwella a Chyfathrebu	8	5	0	0	1	0	14
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	27	5	1	0	0	4	37
Gwasanaeth Adnoddau a Rennir	177	25	5	0	2	1	210
Cymunedau, Gofal Cwsmer a Digidol	80	14	3	1	0	3	101
Cyfanswm	1818	181	23	10	12	19	2063

Canran (%) o Siaradwyr Cymraeg fesul Adran

		1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaeth Addysg		33.5	0.6	0.6	0.0	2.9	37.6
Cyfarwyddiaeth Adnoddau		14.6	3.2	1.6	1.3	0.6	21.4
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoleiddiol		0.9	0.0	0.1	0.4	0.1	1.6
Gofal Cymdeithasol a Thai		4.4	0.6	0.4	0.4	0.6	6.3
Trawsnewid, Gwella a Chyfathrebu		35.7	0.0	0.0	7.1	0.0	42.9
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus		13.5	2.7	0.0	0.0	10.8	27.0
Gwasanaeth Adnoddau a Rennir		11.9	2.4	0.0	1.0	0.5	15.7
Cymunedau, Gofal Cwsmer a Digidol		13.7	2.9	1.0	0.0	2.9	20.6
Cyfanswm		8.7	1.1	0.5	0.6	0.9	11.8

Dewis Iaith Staff

	Saesneg	Cymraeg	
Gwasanaeth Addysg	120	2	
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	297	0	
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoleiddiol	137	2	
Gofal Cymdeithasol a Thai	161	0	
Trawsnewid, Gwella a Chyfathrebu	13	0	
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	28	4	
Gwasanaeth Adnoddau a Rennir	149	0	
Cymunedau, Gofal Cwsmer a Digidol	67	1	
Cyfanswm	972	9	0.4%

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu gallu siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad a datblygu hyder staff sy'n gyndyn o ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Mae'r cyrsiau i gyd yn cael eu hariannu'n ganolog.

Yn ystod 2021/2022, aeth 11 o gyflogeion i hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a ddarperir gan Goleg Gwent).

Mae 11.8% o'n gweithlu yn gallu siarad Cymraeg (Lefelau 1-5)

Astudiodd 3 aelod o staff y Gymraeg drwy "Say Something in Welsh", gan gynnwys ein Prif Weithredwr newydd.

O dan Safon 128, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os ydynt yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;
- Cyfnod sefydlu;
- Delio gyda'r cyhoedd; a
- Iechyd a diogelwch.

Darparwyd hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2020/21, cynigwyd, yn y gwahoddiad, ddewis iaith i'r rhai a fynychodd. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Recriwtio

Yn ystod 2021/22, hysbysebwyd **764** o swyddi newydd neu wag gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd nifer y swyddi yn y categori a oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

Categori	Nifer y swyddi a gategoreiddiwyd	Canran y swyddi a gategoreiddiwyd
Hanfodol	31	4.06 %
Dymunol	28	3.66 %
Angen dysgu	1	0.13 %
Dim angen sgiliau Cymraeg	319	92.15 %

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel gofyniad dan Safon 136, rhaid asesu pob swydd o ran ei sgiliau iaith Gymraeg.

Yn dilyn trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r Cyngor yn edrych ar sut mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu rheoli gyda'r bwriad o ddileu rhwystrau i alluogi hysbysebu mwy o swyddi gyda sgiliau iaith Gymraeg.

4. Casgliad

Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd

Daeth strategaeth 5 mlynedd y Cyngor i ben ym mis Mawrth 2022. Oherwydd yr oedi wrth ryddhau data'r Cyfrifiad 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nid ydym wedi gallu canfod lefel llwyddiant y strategaeth, na gosod targed newydd ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar gyfer y Strategaeth ddilynol. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddilynol ddrafft yn ystod 2022/23.

Dileu Rhwystrau

Yn ystod 2021/22 gweithiodd y Cyngor drwy Safonau y Gymraeg i gynyddu capasiti a dileu rhwystrau a allai gyfyngu adrannau rhag darparu gwasanaethau Cymraeg. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

Polisi Arwyddion

Mae'r Cyngor yn annog datblygwyr eiddo i ddefnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd yn y fwrdeistref.

Yn ystod 2021/22, ni chyflwynwyd unrhyw enwau strydoedd newydd drwy'r broses gynllunio. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i enwi 50% o'r holl strydoedd newydd (o fewn unrhyw flwyddyn ariannol) yn Gymraeg.

Nid yw'r Cyngor bellach yn cyfieithu enwau strydoedd presennol yn dilyn arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Y Defnydd o Gymraeg mewn Cyfarfodydd

Cynhaliwyd mwyafrif o gyfarfodydd trwy Microsoft Teams, ac mae'r heriau o gynnig cyfieithu ar y pryd drwy'r system Microsoft wedi dod yn fwy amlwg. Oherwydd pryderon diogelwch, mae'r Cyngor, ar ôl cyngor ei ddarparwr technoleg gwybodaeth, wedi dewis defnyddio plattform diogel Microsoft Teams.

Nid yw'r plattform yn cynnig ffrydiau clyw niferus ar hyn o bryd, ac mae angen hyn i'r cyfieithu ar y pryd weithio'n rhwydd. Mae Microsoft yn gweithio ar ddatrysiad, ond mae'n debygol y bydd hi'n hwyrach yn y flwyddyn cyn bod hyn ar gael.

Mae ein darparwr technoleg gwybodaeth yn parhau i weithio gyda Microsoft i sicrhau bod systemau'n cael eu diweddarau ar unwaith pan fydd diweddariad meddalwedd newydd ar gael.

Digwyddiadau Diwylliannol

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, llwyddodd y cyngor, mewn partneriaeth gyda Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy i gynnig gŵyl ar-lein 'Torf-hwyl'. Perfformiodd nifer o artistiaid yn fyw (ar-lein) yn ystod y dydd, ac roedd gweithgareddau i oedranau gwahanol, a gwybodaeth am ddysgu Cymraeg. Roedd y Digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda thrigolion Torfaen a thu hwnt yn gwyllo'r cyngerdd ar-lien. Mae tudalen Facebook 'Torf-hwyl' i'w weld [yma](#).

Datblygiad Polisi

Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r Asesiad Lles Integredig ar gyfer penderfyniadau polisi. Mae angen Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg ar unrhyw newid a fydd yn effeithio ar bolisi'r cyngor neu'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i drigolion / grwpiau lleol / busnesau. Cyn cyflwyno unrhyw adroddiad i Aelodau, caiff yr adroddiad ei ddarllen i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu hystyried yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg